# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ymrwymedig i amddiffyn eich gwybodaeth. Mae'r hysbysiad hwn yn egluro sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu ac at ba ddibenion rydym yn ei chadw. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn Rheolydd Data at ddibenion diogelu data. Ein rhif cofrestru ar y Gofrestr Gyhoeddus Diogelu Data yw Z1888319. Gellir cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data ar rif ffôn 01495 765019 / 01495 765326 neu e-bostio i DPO.ABB@wales.nhs.uk.

**Pam rydym ni'n casglu eich gwybodaeth?**
Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cynnig gofal iechyd i chi yn cynnal cofnodion am eich iechyd ac unrhyw driniaeth neu ofal rydych yn eu cael. Mae'r cofnodion hyn yn helpu ein staff i ddarparu'r gofal iechyd gorau posibl i chi.

**Pa wybodaeth rydym yn ei chadw ac o ble mae'n tarddu?**
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ac yn cofnodi gwybodaeth amdanoch gan gynnwys: -

- Dynodyddion personol a gwybodaeth ddemograffig sy'n cynnwys materion megis eich enw, dyddiad geni, teitl, rhywedd
- Manylion eich teulu, priod a phartner Eich manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriadau post, cyfeiriadau e0bost, a rhifau ffôn
- Unrhyw gysylltiadau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu cael gyda chi megis, apwyntiadau, ymweliadau â chlinig, apwyntiadau brys ac ati
- Nodiadau ac adroddiadau am eich iechyd
- Manylion am eich triniaeth a gofal, gan gynnwys meddyginiaethau
- Canlyniadau ymchwiliadau megis profion labordy, prawf pelydr-X ac ati
- Gwybodaeth berthnasol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill, perthnasau neu'r rheiny sy'n goflau amdanoch chi

**Sut rydym yn cadw eich gwybodaeth yn gyfrinachol?**
Byddwn yn cadw eich gwybodaeth ar gyfrifiaduron ac ar bapur ac rydym yn defnyddio cyfuniad o arferion gwaith cadarn a thechnoleg i sicrhau y cedwir eich gwybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Byddwn yn diogelu eich gwybodaeth drwy: -

- **Hyfforddiant** – rydym yn hyfforddi staff i ddeall eu dyletswydd o ran cyfrinachedd a'u cyfrifoldebau ynglŷn â diogelwch gwybodaeth ar ein safleoedd a thu allan yn y gymuned.
- **Rheolaethau Mynediad** – caiff pob aelod o staff a ddefnyddia systemau cyfrifiadurol sy'n cynnal gwybodaeth cleifion eu henwau defnyddiwr a chyfrineiriau eu hunain i gael mynediad at eich gwybodaeth.
- **Trywyddion Archwilio** – byddwn yn cadw cofnod o unrhyw un sydd wedi cael mynediad at eich cofnod iechyd neu sydd wedi ychwanegu at eich cofnod.
- **Rheoli Cofnodion** – caiff yr holl gofnodion gofal iechyd eu cadw yn gyfrinachol ac mewn lleoliadau diogel.
- **Rheolaethau Cyfrifiadurol** – mae gennym ni reolaethau diogelwch cymhleth i sicrhau na all ein cyfrifiaduron ar gael i'w defnyddio gan y rheiny nas awdurdodir i wneud hyn – megis hacwyr

**Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth?**
I sicrhau y cewch y gofal gorau posibl, defnyddir eich cofnodion i ddarparu manylion am eich iechyd, gofal a thriniaeth i aelodau staff yn ogystal â gwybodaeth am yr hyn sydd ei angen i reoli eich iechyd neu gynnydd yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn defnyddio eich gwybodaeth i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i ddiogelu iechyd y cyhoedd (er enghraifft, mewn achosion pan allwn weld cyfres o achosion y frech goch). Byddwn hefyd yn defnyddio gwybodaeth i'n helpu i reoli'r GIG ac at ddibenion ystadegol, ac weithiau gellir defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion gwaith ymchwil. Pan fyddwn yn gwneud hyn, rydym yn cymryd mesurau llym i sicrhau na ellir adnabod cleifion unigol.

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd a byddwn yn defnyddio gwybodaeth a gesglir yn unol â'r gyfraith a safonau gwaith yn unig, megis: -

- Deddf Diogelu Data
- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredinol
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012
- Cod Cyfrinachedd y GIG, Diogelwch Gwybodaeth a Rheoli Cofnodion

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac wedi derbyn triniaeth gan ddarparwr gofal y GIG yn Lloegr, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ôl i GIG Cymru er mwyn dilysu a chyfuno'ch gwybodaeth a gedwir yng Nghymru. Bydd y wybodaeth honno'n cael ei defnyddio gan y Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd i'ch adnabod chi a dilysu pa ofal a ddarparwyd.

Mae pob aelod o staff sy'n gweithio i'r GIG â dyletswydd gyfreithiol i gadw gwybodaeth amdanoch yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae adegau pan fo'n briodol i rannu gwybodaeth amdanoch chi a'ch gofal iechyd gydag eraill megis meddygon teulu a Gofal Cymdeithasol. Mae angen rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn ein helpu i weithio gyda'n gilydd er eich budd. Pan fo contract ar waith gennym, gall fod angen rhannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon megis cyflenwyr ocsigen a sefydliadau gwirfoddol. Gall fod amgylchiadau eithriadol hefyd pan fydd eich gwybodaeth yn cael ei datgelu, yn arbennig mewn sefyllfaoedd bygwth bywyd neu pan fo'r gyfraith yn gofyn i wybodaeth gael ei datgelu.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i ni fel cyfeiriadau e-bost, rhif ffôn, cyfeiriad post, sydd ar gyfer cysylltu â chi drwy lythyr, e-bost, neges testun ac ati.

# Hysbysiad Preifatrwydd

**Cadw Data**
Byddwn yn cadw eich data yn unol â’r gyfraith ac mae gan y Bwrdd Iechyd Amserlen Gadw sy’n manylu faint o amser rydym yn cadw eich cofnodion. Mae hon ar gael i’w gweld ar ein gwefan www.wales.nhs.uk.

**Eich hawliau**
Yn rhan o’r Ddeddf Diogelu Data mae gennych nifer o hawliau gan gynnwys:

- Yr hawl i wneud cais am fynediad i weld a chael copïau o’r wybodaeth a gedwir gan y Bwrdd Iechyd amdanoch. Enw hyn yw Cais Gwrthrych am Wybodaeth.
- Mae gennych chi hefyd yr hawl i gael gwybodaeth amdanoch chi wedi ei haddasu os nad yw'n gywir.

OS dymunwch wneud Cais Gwrthrych am Wybodaeth neu i gywiro eich gwybodaeth, gweler ein gwefan am fanylion www.wales.nhs.uk.
Os oes gennych unrhyw bryderon am sut y rheolir gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, cysylltwch â’r Swyddog Diogelu Data. Os credwch bod eich gwybodaeth yn cael ei gweld neu ei defnyddio yn amhriodol gweler ein gwefan am sut y gallwch gwyno neu wneud cais am ymchwiliad.
www.wales.nhs.uk.

**Cysylltu:**
Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â’r Swyddog Diogelu Data ar: -
Rhifau Ffôn: 01495 765019 / 01495 765326 neu gyfeiriad e-bost: DPO.ABB@wales.nhs.uk.
Eich pwynt cyswllt yw hwn, ar gyfer unrhyw bryderon ynglŷn â defnyddio eich gwybodaeth.
Os nad ydych yn fodlon ar adolygiad sydd wedi ei gynnal gan y Swyddog Diogelu Data, yna cewch gysylltu â Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ei gwefan (www.ico.gov.uk).